



Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion: Dogfen Ganllaw 2019

Canllaw

Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2019

Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion

Trosolwg

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i ofynion statudol yn sgil diwygio'r rheoliadau. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o reoliadau mewn grym, sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion.

Un o amcanion allweddol Cenhadaeth ein Cenedl yw sicrhau trefniadau asesu, gwerthuso a gwella cadarn er mwyn cefnogi system hunanwella. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau hyn yn sail i ddatblygiadau diweddar ym maes polisi er mwyn newid y ffocws o ddefnyddio data'n anghywir at ddibenion atebolrwydd i'w prif ddiben o wella dysgu disgyblion.

Mae'r newidiadau rheoliadol yn effeithio ar y canlynol:

- Y broses o Adrodd i Rien
- Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr
- Prosbectysau Ysgolion
- Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion
- Cynlluniau Datblygu Ysgolion
- Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb

Mae dolenni i'r holl reoliadau diwygiedig wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5014
e-bost:IMS@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

**Copïau
ychwanegol**

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth
Cymru yn [https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-
llywodraethur-strategaeth-rheoli-gwybodaeth](https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-llywodraethur-strategaeth-rheoli-gwybodaeth)

**Dogfennau
cysylltiedig**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Seisneg
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 ISBN Digidol 978-1-83933-104-6
WG35247

Tabl Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Tabl Cynnwys | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon) (Cymru) 2018 | 6 |
| Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 | 6 |
| Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 | 8 |
| Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 | 9 |
| Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 | 11 |
| Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 | 12 |
| Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 | 13 |
| Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 | 15 |
| Ymchwil ac ystadegau swyddogol | 18 |
| Casgliadau a datganiadau data allweddol ar gyfer 2019/20 | 19 |

Cefndir

Un o amcanion allweddol Cenhadaeth ein Cenedl yw sicrhau trefniadau asesu, gwerthuso a gwella cadarn er mwyn cefnogi system hunanwella. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos yn glir fod angen i ni sicrhau bod gennym system asesu ac atebolrwydd gydynol er mwyn llwyddo i godi safonau i bob dysgwr. Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau am y ffordd orau o wella dysgu disgyblion. Mae'r newidiadau rheoliadol sydd wedi dod i rym yn ategu'r diben hwn.

Trosolwg

Mae'r trefniadau presennol mewn perthynas â llif data gan ysgolion drwy awdurdodau lleol yn parhau yr un fath. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau diwygiedig yn golygu bod cynnwys rhai adroddiadau ac allbynnau wedi newid.

Y trefniadau a fydd yn parhau yr un fath:

- Bydd Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Asesiadau Athrawon ar gyfer dysgwyr unigol yn parhau
- Bydd yn ofynnol o hyd i benaethiaid adrodd am berfformiad disgyblion i'w rhieni/gwarcheidwaid ac i ddysgwyr sy'n oedolion bob blwyddyn (bydd rhieni/gwarcheidwaid yn dal i allu cymharu perfformiad eu plant â'r lefel genedlaethol)
- Bydd yn ofynnol o hyd i gyrff llywodraethu lunio adroddiadau blynyddol, prosectysau ysgol, cynlluniau datblygu ysgol, a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb
- Bydd ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn parhau i allu gweld eu data eu hunain (ochr yn ochr â data cenedlaethol) at ddibenion hunanwerthuso
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel disgyblion unigol er mwyn sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol a llywio polisi

Y trefniadau a fydd yn newid:

- Ni fydd yr adroddiadau y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys unrhyw wybodaeth gymharol am brofion nac asesiadau athrawon mewn perthynas ag ysgolion eraill mewn awdurdod lleol mwyach
- Ni fydd Llywodraeth Cymru yn llunio Adroddiadau Ysgolion Cymharol mwyach nac ychwaith Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('pecynnau data') ar gyfer ysgolion nac awdurdodau lleol mewn perthynas â data asesiadau athrawon
- Ni fydd gwefan *Fy Ysgol Leol* yn cynnwys data asesiadau athrawon mwyach (ond bydd yn cynnwys dolen i ddata cenedlaethol)
- Mae'r gofynion ar gyfer gosod targedau yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid, gan roi mwy o ymreolaeth i ysgolion

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/766/pdfs/wsi_20180766_mi.pdf

Ar 31 Gorffennaf 2018, daeth Rheoliadau newydd i rym, sef Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018, sy'n golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth gymharol am ddata asesiadau athrawon na data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol na chonsortia rhanbarthol.

Bydd ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn parhau i allu gweld eu data eu hunain, ochr yn ochr â data cenedlaethol, felly byddant yn dal i allu gwerthuso pa mor dda y mae eu hysgolion yn perfformio a llywio eu gwaith cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel disgyblion unigol er mwyn sicrhau bod modd ymchwilio i ymyriadau penodol ym maes polisi, a'u gwerthuso – e.e. er mwyn deall effaith canlyniadau disgyblion ar raglenni datblygiadol ychwanegol ar draws y system addysg.

Mae'r rheoliadau newydd yn diwygio nifer o'r rheoliadau presennol fel y disgrifir isod:

Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1943/pdfs/wsi_20111943_mi.pdf

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1998/pdfs/wsi_20141998_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad disgybl i'w rieni ac i ddisgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol.

Mae hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiad statudol a gynhaliwyd yn unol â'r trefniadau asesu a bennwyd gan Weinidogion Cymru yng Ngorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013. Bydd y gofyniad hwn yn parhau.

Bydd rhieni'n dal i gael adroddiadau gan benaethiaid, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall perfformiad eu plentyn. Bydd rhieni hefyd yn gallu cymharu perfformiad eu plentyn â gwybodaeth genedlaethol gyhoeddedig.

Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gymharol am ysgolion mwyach (o ran canlyniadau profion ac asesiadau athrawon), sy'n cymharu perfformiad ysgol ag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol neu ledled Cymru.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys y wybodaeth ganlynol, o leiaf:

- Manylion cryno am gyflawniadau a chynnydd y disgybl mewn perthynas â phob maes dysgu, pwnc neu weithgarwch, gan dynnu sylw at unrhyw gryfderau a gwendidau penodol

- Sgiliau a galluoedd y disgybl a'i gynnydd cyffredinol yn yr ysgol yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef
- Lle y caiff lefelau cyflawniad eu cynnwys, dylid cynnwys datganiad yn nodi pa un a yw'r lefelau hyn wedi'u pennu yn unol â'r asesiadau statudol ai peidio
- Manylion unrhyw bwnc y mae'r disgybl wedi'i eithrio ohono
- Manylion unrhyw gymhwyster neu ran o gymhwyster a enillwyd gan y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef
- Crynodeb o bresenoldeb y disgybl yn ystod y cyfnod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef, gan gynnwys nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig
- Manylion am ffyrdd y gall rhieni/gwarcheidwaid, neu ddisgyblion sy'n oedolion, drafod yr adroddiad ag athrawon
- I ddisgyblion sy'n dilyn rhaglenni astudio Cyfnod Allweddol 4, dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd.

Argymhellwn y dylai ysgolion wneud pob ymdrech i lunio adroddiadau diddorol, llawn gwybodaeth sy'n addas i rieni a gofalwyr. Argymhellion ychwanegol er mwyn llunio adroddiadau diddorol a llawn gwybodaeth:

- Dylai 'manylion cryno' fod ar ffurf sylwadau byr am y gweithgarwch pwnc dan sylw. Dylid tynnu sylw at gryfderau a chyflawniadau penodol ynghyd â gwendidau, targedau ar gyfer gwella ac awgrymiadau o ran sut y gellir annog y dysgwr i ddatblygu mewn maes penodol
- Gallai manylion am gynnydd cyffredinol gynnwys trosolwg o ymddygiad, cyfraniad at fywyd yr ysgol, cyflawniadau arbennig, a llesiant cyffredinol
- Gellid cynnwys gwybodaeth am resymau dros absenoldeb/hwyrni a chrynodeb o wybodaeth am unrhyw waharddiadau sy'n berthnasol i'r cyfnod dan sylw
- Gallai'r trefniadau ar gyfer trafod yr adroddiad gynnwys manylion cyfarfodydd rhieni, Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr a digwyddiadau allweddol eraill yng nghalendr yr ysgol
- Gall cynnwys enwau athrawon perthnasol a gwybodaeth am ffyrdd gwahanol o gysylltu â'r ysgol ac athrawon helpu i gynyddu lefelau ymgysylltu
- Dylid tynnu sylw at bwysigrwydd rôl rhieni a'r cyfraniad y gall rhieni ei wneud at addysg eu plant a bywyd yr ysgol

Mae'r gofynion penodol ym mhob cyfnod allweddol yn parhau yr un fath. Cyfeiriwch at y ddolen uchod am ragor o fanylion.

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1939/pdfs/wsi_20111939_mi.pdf

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1561/pdfs/wsi_20131561_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir lunio adroddiad blynyddol i rieni, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall perfformiad eu plentyn, a bydd hyn yn parhau. Rhaid i adroddiad cryno gael ei ddsbarthu i bob rhiant, gan gynnwys y wybodaeth ofynnol a manylion am sut y gall rhieni ofyn am gopi o'r adroddiad llawn. Rhaid i ysgolion sicrhau bod yr adroddiad neu'r adroddiad cryno ar gael i rieni o leiaf bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod blynyddol lle y caiff yr adroddiad ei ystyried.

- Ni fydd Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr yn cynnwys adroddiadau ysgolion cymharol mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol)

Rhaid i'r adroddiad cryno gynnwys y wybodaeth ganlynol, o leiaf:

- Manylion am drefniadau'r cyfarfod rhieni blynyddol nesaf, gan gynnwys amser, lleoliad, diben ac agenda, ac adroddiad ar unrhyw ystyriaethau a wnaed mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod blynyddol blaenorol
- Gwybodaeth am drefniadau'r etholiad rhiant-lywodraethwyr nesaf, os oes gwybodaeth o'r fath ar gael
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn unig, y crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd
- Y targedau diweddaraf ar gyfer gwella ac ar gyfer lleihau absenoldeb y cytunwyd arnynt gan y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol

Rhaid i adroddiadau llawn hefyd gynnwys:

- Dyddiadau'r tymhorau
- Datganiad ariannol
- Newidiadau i wybodaeth prosectws yr ysgol
- Datganiad ar y defnydd o'r Gymraeg
- Darpariaeth cyfleusterau toiled a threfniadau glanhau
- Gweithgareddau allgyrsiol

Yn ogystal â'r gofynion sylfaenol, anogir llywodraethwyr i gynnwys deunydd ychwanegol er mwyn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a sicrhau bod y ddogfen mor ddiddorol â phosibl.

I gael rhagor o fanylion am ofynion penodol, cyfeiriwch at y ddolen uchod.

Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1944/pdfs/wsi_20111944_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth gyffredinol yn y prosiectws cyfansawdd mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir yn yr awdurdod. Rhaid i'r prosiectws fod ar gael i rieni/gwarcheidwaid, ysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus yn yr awdurdod lleol, ac ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gyhoeddi gwybodaeth gyffredinol mewn un ddogfen, a elwir yn brosiectws ysgol. Bydd y prosiectws yn dal i gynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr ysgol i rieni/gwarcheidwaid, dysgwyr a phobl eraill â diddordeb. Bydd yn parhau i ddangos gwybodaeth am berfformiad yr ysgol ei hun, a bydd gwybodaeth gymharol yn parhau i fod ar gael ar lefel genedlaethol.

Ni fydd prosiectysau cyrrff llywodraethu yn cynnwys adroddiadau ysgolion cymharol mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol)

Rhaid i brosiectws ysgol gynnwys y wybodaeth ofynnol ganlynol, o leiaf:

- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol.
- Enw'r pennaeth
- Enw cadeirydd presennol y llywodraethwyr
- Dosbarthiad yr ysgol:
 - ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol arbennig gymunedol neu arbennig sefydledig, ysgol gynradd, ysgol ganol neu ysgol arbennig;
 - ysgol gyfun, ysgol ramadeg neu ysgol rannol ddetholus;
 - ysgol gyd-addysgol neu un rhyw;
 - ysgol ddydd, ysgol breswyl neu ysgol sy'n derbyn disgyblion dydd a disgyblion preswyl
- Iaith yr ysgol fel y'i dangosir yn ei chategori CYBLD
- Unrhyw gysylltiad sydd gan yr ysgol â chrefydd neu enwad crefyddol
- Manylion y polisi derbyn ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau, gan gynnwys y rheini sy'n hŷn neu'n iau na'r oedran ysgol gorfodol (nid yw hyn yn berthnasol i ysgolion arbennig) a'r trefniadau arbennig ar gyfer derbyn disgyblion anabl a sicrhau bod yr ysgol yn hygyrch iddynt
- Dylai ysgolion uwchradd (ond nid ysgolion arbennig) hefyd gynnwys manylion am nifer y lleoedd ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol a oedd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn

flaenorol, nifer y ceisiadau neu gyfeiriadau ysgrifenedig, nifer yr apelau a wnaed a nifer yr apelau a fu'n llwyddiannus

- Manylion unrhyw drefniadau er mwyn i rieni ymweld â'r ysgol
- Datganiad am ethos a gwerthoedd yr ysgol
- Gwybodaeth am y cwricwlwm, trefn yr addysg a dulliau addysgu. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaed ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig
- Crynodeb o gynnwys a threfn addysg rhyw
- Manylion unrhyw addysg gyrfaoedd ac unrhyw drefniadau i ddisgyblion gael profiadau sy'n canolbwyntio ar waith
- Crynodeb o'r addysg grefyddol a ddarperir yn yr ysgol a manylion am hawl rhiant/gwarcheidwad, disgybl chweched dosbarth i ddewis peidio â chymryd rhan mewn addysg grefyddol, ac unrhyw ddarpariaeth amgen a wneir ar gyfer disgyblion o'r fath
- Crynodeb o bolisïau a threfniadau'r ysgol mewn perthynas â'r canlynol:
 - y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig;
 - cefnogi a hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal;
 - taliadau ar gyfer dewisiadau ychwanegol a manylion y polisïau mewn perthynas ag amgylchiadau lle y caiff y taliadau hyn eu hepgor;
 - y polisi cyfle cyfartal
- Manylion yr aelod o'r staff a ddynodwyd yn gyfrifol am hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal
- Gwybodaeth am unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â natur addoli ar y cyd yn yr ysgol
- Crynodeb o nodau'r ysgol ym maes chwaraeon a manylion y trefniadau er mwyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol
- Dyddiadau'r tymhorau ac amseroedd sesiynau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn y gwahoddir disgyblion i wneud cais am le
- Y trefniadau a wnaed i sicrhau diogelwch disgyblion, staff a safle'r ysgol
- Crynodeb o nodweddion allweddol y cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref
- Datganiad byr am y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, er mwyn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid a darpar rieni yn deall natur ieithyddol yr ysgol yn llawn. Dylai hyn gynnwys:

- y defnydd o'r Gymraeg fel iaith hyfforddi mewn cyfnodau allweddol gwahanol, pynciau gwahanol a, lle y bo'n briodol, argaeledd cyfarwyddyd amgen yn Saesneg;
 - manylion am y defnydd o'r Gymraeg fel iaith cyfathrebu yn yr ysgol y tu hwnt i hyfforddiant ffurfiol;
 - unrhyw gyfyngiadau o ran y gallu i ddewis yr iaith y rhoddir hyfforddiant ynddi;
 - trefniadau'r ysgol ar gyfer hwyluso dilyniant i ddisgyblion a gaiff eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg tra'u bod wedi'u cofrestru yn yr ysgol neu wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
 - manylion unrhyw eithriad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru ar yr amod nad yw'r wybodaeth hon yn enwi disgybl unigol yr effeithir arno
- Y Crynodeb diweddaraf o Berfformiad Ysgol Uwchradd – ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn unig
 - Dylai ysgolion uwchradd gynnwys manylion am gyfran y disgyblion 15 neu 16 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd flaenorol sydd wedi gwneud y canlynol:
 - parhau mewn addysg, hyfforddiant, neu ddysgu seiliedig ar waith llawn amser;
 - symud ymlaen i gyflogaeth;
 - heb barhau mewn addysg nac wedi symud ymlaen i gyflogaeth; neu
 - nad yw eu llwybr yn hysbys
 - Ffigurau presenoldeb ac absenoldeb blynyddol diweddaraf yr ysgol
 - Datganiad am sut i wneud cwyn

Yn ogystal â'r wybodaeth ofynnol, dylai ysgolion wneud pob ymdrech i sicrhau bod prospectws yr ysgol yn ddiddorol, yn llawn gwybodaeth ac yn addas i gynulleidfa eang.

Cyfeiriwch at y ddolen uchod i gael rhagor o fanylion am y gofynion statudol.

Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1963/pdfs/wsi_20111963_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r broses o gasglu gwybodaeth am berfformiad ysgolion. Maent yn gosod dyletswydd ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i ddarparu gwybodaeth i gyrrff llywodraethu er mwyn eu galluogi i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn.

Rhaid i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am ganlyniadau asesiadau'r cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri. Nid yw'r gofynion a bennir yn y Rheoliadau hyn wedi newid.

- Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am ganlyniadau asesiadau pob disgybl cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

- Rhaid i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir sydd â disgyblion 15, 16, 17 a 18 oed ddarparu gwybodaeth benodol i Lywodraeth Cymru am eu canlyniadau.
- Rhaid i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig, ac nid yw hyn wedi newid.

Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i ysgolion rannu canlyniadau asesiadau statudol ag awdurdodau lleol (nid yw'r Rheoliadau yn ymestyn i gonsortia rhanbarthol). Fodd bynnag, yr un yw'r safbwynt polisi o ran y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, sef eu bod at ddefnydd **ffurfiannol** yn unig, er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr a dealltwriaeth gyffredin o gryfderau a meysydd i'w gwella o ran y sgiliau hyn. Dylid eu defnyddio o fewn ysgolion ac er mwyn adrodd i rieni, ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion perfformiad nac atebolrwydd yr ysgol.

O 2018/19, caiff asesiadau personol ar-lein eu cyflwyno fesul cam dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau gyda Rhifedd (Gweithdrefnol). Dros amser, bydd yr asesiadau personol yn disodli'r Profion Cenedlaethol papur presennol. O ganlyniad i'r newid hwn, rydym wrthi'n adolygu ein polisiâu a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r broses o adrodd am ganlyniadau profion.

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2124/pdfs/wsi_20132124_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn cael hyfforddiant ar ddeall a defnyddio data ysgolion, a phennu cynnwys yr hyfforddiant hwnnw. Disgwylir i lywodraethwyr ysgolion gwblhau hyfforddiant ar y meysydd sy'n benodol i'w hysgol. Rhaid i awdurdodau lleol ac unrhyw un arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ystyried cynnwys canllawiau Llywodraeth Cymru wrth lunio eu rhaglenni gorfodol ar ddeall data ysgolion. Nid yw'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i unrhyw lywodraethwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion fel y'i nodir yn nogfen 2014 (Dogfen ganllaw 140/2014) cyn i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016 ddod i rym.

- Bydd y gofyniad i sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn parhau i gael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn defnyddio data i ddwyn ysgolion i gyfrif yn parhau
- Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i lywodraethwyr ysgolion ar ddeall data perfformiad wedi'u diwygio er mwyn dileu'r cyfeiriad at ddata profion ac asesiadau athrawon, mewn perthynas â 'phhecynnau data' ac Adroddiadau Ysgolion Cymharol

Mae'r canllawiau diwygiedig ar hyfforddiant ar ddata i'w gweld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/hyfforddiant-i-lywodraethwyr-ysgolion-deall-data-ysgolion?_ga=2.120263361.873576342.1565616802-1082865930.1549278497

Yn unol â'r cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion a gynhelir (ar wahân i ysgolion arbennig), dylai Llywodraethwyr ddeall y canlynol:

- Y gwahaniaeth rhwng 'Cyflawniad' a 'Cyrhaeddiad'; Cyflawniad: pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu a aseswyd; Cyrhaeddiad: pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio, ar sail prawf safonedig, (e.e. Lefel 4 mewn Saesneg yn CA2 neu ar ddiwedd blwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol neu sgôr pwyntiau 'Cario 9' yn CA4)
- 'Dibynadwyedd' a 'Dilysrwydd' – ystyr gwybodaeth ddibynadwy yw gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi ac ystyr gwybodaeth ddilys yw gwybodaeth resymegol sydd yn y cyd-destun cywir
- Pa grwpiau o ddisgyblion, yn ystadegol, sy'n wynebu risg o dangyflawni

Cynnwys gorfodol ar gyfer ysgolion arbennig:

Mae'n ofynnol i Ysgolion Arbennig gofnodi a dadansoddi i ba raddau y mae disgyblion yn cyflawni eu nodau dysgu unigol, a dylai llywodraethwyr ddisgwyl i'r ysgol ddarparu gwerthusiad o hyn. Ar sail anghenion mwy penodol unigolion, bydd yr ysgol hefyd yn cofnodi i ba raddau y mae disgyblion yn gwneud y canlynol:

- Datblygu ymddygiad aeddfed a phriodol
- Dysgu sut i ddefnyddio dyfeisiau a systemau cyfathrebu i oresgyn rhwystrau i ddysgu
- Meithrin sgiliau bywyd pwysig
- Meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Mynychu'r ysgol
- Mynychu lleoliadau mwy cynhwysol ac sy'n briodol o ran oedran
- Datblygu annibyniaeth
- Ennill cymwysterau achrededig (sy'n addas i'w hanghenion)
- Rhaid i'r rhaglen hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgolion arbennig gynnwys y meysydd canlynol:
 - Cymwysterau achrededig lle y bo'n briodol. Defnyddir amrywiaeth eang o gyrsiau ar draws Ysgolion Arbennig yng Nghymru. Ymhlith yr enghreifftiau mae ASDAN (cynradd ac uwchradd), Edexcel (cynradd ac uwchradd), TGAU Lefel Mynediad, Lefel 1 City and Guilds, Lefel 1 B Tech

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2677/pdfs/wsi_20142677_mi.pdf

- Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu lunio cynlluniau datblygu ysgolion er mwyn arfer eu cyfrifoldeb am gynnal ysgol a gynhelir gyda'r nod o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol, a bydd hyn yn parhau. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn weithredol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n ofynnol i gyrff

llywodraethu ddiwygio'r cynllun bob blwyddyn, ac yn dilyn arolygiad gan Estyn. Bydd data cenedlaethol yn parhau i fod ar gael a bydd cyrff llywodraethu yn parhau i gael data gan eu hysgol eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn parhau i gael y wybodaeth i'w galluogi i hunanwerthuso a chynllunio.

Mae'r gofyniad i roi sylw dyledus i wybodaeth ysgol gymharol (Adroddiad Ysgol Cymharol) wedi'i ddileu. Mae'r canllawiau ar gynlluniau datblygu ysgolion wedi'u diwygio'n unol â hynny:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf>

Rhaid i'r Cynllun Datblygu Ysgol gynnwys y canlynol:

Strategaethau gwella

- Blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ysgol nesaf
- Rhaid i'r corff llywodraethu hefyd ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol

Targedau gwella, canlyniadau disgwylidig a strategaeth yr ysgol

- Datganiad byr yn nodi targedau gwella a chanlyniadau disgwylidig yr ysgol, ynghyd â strategaeth y corff llywodraethu i gyrraedd y targedau hynny

Strategaeth (dysgu) proffesiynol

- Manylion strategaeth y corff llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol o ran sut y bydd yn datblygu dysgu (proffesiynol) staff yr ysgol ymhellach er mwyn cyrraedd targedau gwella'r ysgol

Gweithio gyda'r gymuned

- Manylion am y ffordd y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyrraedd targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol drwy weithio gyda: (a) disgyblion yn yr ysgol a'u teuluoedd; a (b) pobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal yr ysgol

Staff ac adnoddau'r ysgol

- Manylion am y ffordd y bydd y corff llywodraethu yn gwneud y defnydd gorau posibl o staff ac adnoddau'r ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) er mwyn cyrraedd targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol
- y staff a'r adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae'r corff llywodraethu yn disgwyl y byddant ar gael iddo er mwyn cyrraedd targedau gwella'r ysgol dros y ddwy flwyddyn ysgol nesaf ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol

Targedau blaenorol

- Datganiad byr yn nodi i ba raddau y llwyddwyd i gyrraedd targedau gwella'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol a lle na llwyddwyd i'w cyrraedd, esboniad byr o'r rhesymau dros y methiant hwnnw

Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1945/pdfs/wsi_20111945_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu osod targedau perfformiad ar gyfer dysgwyr a thargedau i leihau absenoldeb o'r ysgol (a'u cyflwyno i'w hawdurdod lleol). Bydd yn ofynnol i ysgolion osod targedau perfformiad, cyhoeddi prospectws ysgol a chwblhau eu cynllun datblygu ysgol o hyd. Bydd yr holl ofynion o ran gosod targedau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn parhau yn unol â'r polisi hunanwella i ysgolion.

- Mae'r diwygiadau hyn yn dileu'r cyfeiriad at ddata cymharol a welir ym 'mhecynnau data' asesu athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3
- Ni fydd yn rhaid i gorff llywodraethu ystyried "setiau data" a ddarperir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn unig. Yn lle hynny, bydd yn rhaid i gorff llywodraethu ystyried amrywiaeth o ddata ar berfformiad disgyblion mewn asesiadau athrawon, a fydd ar gael o amrywiaeth o ffynonellau
- Ni fydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gyhoeddi data ar gyrhaeddiad disgyblion ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 mwyach. Bydd y data hyn yn parhau i gael eu cyhoeddi ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11
- Nid yw'n ofynnol mwyach i gyrff llywodraethu osod targedau ar gyfer cyflawni'r dangosydd pwnc craidd nac ar gyfer nifer y disgyblion sy'n gadael heb gymwysterau perthnasol, ond mae rhyddid iddynt wneud hynny'n wirfoddol

Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio)2019

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/993/pdfs/wsi_20190993_mi.pdf

Yn dilyn cyflwyno mesurau perfformiad interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn 2019, gwnaed diwygiadau i Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011. Daw'r rheoliadau diwygiedig i rym ar 1 Medi a dim ond i drefniadau gosod targedau yng Nghyfnod Allweddol 4 y maent yn berthnasol.

- O flwyddyn ysgol 2019/20, ac yn cynnwys y flwyddyn honno, ni fydd ysgolion yn defnyddio targedau a bennir mwyach. Yn lle hynny, bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu osod rhagor o dargedau nas pennir
- Caiff nifer y targedau nas pennir eu cynyddu o 3 i 6
- Nid yw'r rheoliadau diwygiedig yn cynnwys y gofyniad i gyrff llywodraethu osod targedau mesur-benodol

- Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymeradwyo targedau o hyd, ond dim ond i gefnogi gwaith hunanwerthuso y dylid eu defnyddio ac ni ddylid eu cyfuno i lunio mesur perfformiad er mwyn i awdurdod lleol ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif

Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion hunanwella a datblygu targedau dilys sy'n helpu i godi cyflawniadau dysgwyr Ceir rhagor o fanylion am fesurau perfformiad interim Cyfnod Allweddol 4 yn y canllawiau canlynol:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/trefniadau-perfformiad-ysgol-interim-cyfnod-allweddol-4-mesurau-a-dadansoddiadau.pdf>

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/3562/pdfs/wsi_20073562_mi.pdf

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2325/pdfs/wsi_20112325_mi.pdf

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am ddisgyblion unigol, fel y'i pennir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau'n cefnogi'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), sy'n orfodol i bob sector ysgol.

- Nid yw diwygiadau rheoliadol diweddar wedi effeithio ar Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) ac mae'r holl ofynion yn parhau yr un fath

Yn ogystal â chefnogi CYBLD, mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu gofynion mewn perthynas â chynnal cofnodion cwricwlaidd ac addysgol a throsglwyddo gwybodaeth drwy'r System Drosglwyddo Gyffredin pan fydd disgyblion yn newid ysgolion.

Defnyddir y System Drosglwyddo Gyffredin i drosglwyddo cofnod disgybl yn electronig pan fydd yn symud o un ysgol i'r llall. Mae defnyddio'r system hon yn lleihau baich gweinyddol casglu data ac yn cynyddu cywirdeb a dilyniant cofnodion. Mae hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau i nodi ac atal disgyblion rhag mynd ar goll o addysg drwy hwyluso'r broses o dynnu sylw at gofnodion pan fydd disgyblion yn gadael un ysgol ac nad ydynt yn cofrestru mewn ysgol arall yn ôl pob golwg.

Rhaid i'r system gynnwys y wybodaeth ofynnol ganlynol am y disgybl(ion) unigol, o leiaf:

- Rhif Unigryw'r Disgybl
- *Gan gynnwys unrhyw Rif Unigryw a/neu Rif Unigryw blaenorol*
- Rhif Unigryw'r Dysgwr os yw ar gael
- Cyfenw
- Enw(au) cyntaf
- Dyddiad Geni

- Rhyw
- Ethnigrwydd a manylion y sawl a ddarparodd y wybodaeth am grŵp ethnig y disgybl
- Hunaniaeth Genedlaethol (*mae gwybodaeth am ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol yn ofynnol i bob dysgwr dros 5 oed*)
- Iaith gyntaf
- Lefel rhuglder yn y Gymraeg
- P'un a yw'n siarad Cymraeg gartref ai peidio
- Manylion y sawl a ddarparodd y wybodaeth am ruglder y disgybl yn y Gymraeg a'i ddefnydd o'r Gymraeg gartref
- Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim
- Os yw disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, manylion am lefel y broses caffael iaith
- Os oes gan blentyn anghenion addysgol arbennig (AAA), cadarnhad o'r prif angen a nodwyd ac unrhyw anghenion eilaidd a nodwyd
- Y math o ddarpariaeth AAA yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Dangosydd o ran a yw disgybl yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac, os felly, enw'r awdurdod lleol
- Cyfeiriad preswylfa arferol y disgybl
- Cyfenw o leiaf un enw cyswllt ar gyfer y disgybl a manylion ei gydberthynas â'r disgybl
- Dangosydd o ran lle mae gwybodaeth feddygol yn bodoli a all fod yn berthnasol i ysgol newydd y disgybl
- Gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol neu'r flwyddyn academaidd ddiweddaraf
- Dylid hefyd gynnwys hanes o absenoldebau
- Gwybodaeth am yr asesiadau athrawon diweddaraf

Gofynion yn ymwneud â chofnodion addysgol a chwricwlaidd:

Mae'r cofnod cwricwlaidd yn gofnod ffurfiol o gyflawniadau academaidd, sgiliau, galluedd a chynnydd disgybl. Rhaid iddo gael ei ddiweddarau o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r cofnod addysgol yn gofnod o unrhyw wybodaeth, gan gynnwys y cofnod cwricwlaidd, sy'n ymwneud â'r disgybl, ar wahân i wybodaeth a broseswyd gan athrawon unigol at eu diben nhw eu hunain yn unig.

Mae'n ofynnol i'r pennaeth wneud y canlynol:

- Trosglwyddo'r cofnod addysgol cyflawn i'r ysgol newydd pan gaiff disgybl ei ail-leoli i sefydliad dysgu arall. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth yn electronig, ar bapur, neu mewn cyfuniad o fformatau.
- Darparu copi o gofnod addysgol disgybl i riant y disgybl o fewn 15 diwrnod ar ôl cael cais ysgrifenedig amdano. Gellir codi tâl am ddarparu'r copi heb fod yn fwy na chost ei gyflenwi.

- Darparu copi o'r cofnod addysgol (ac eithrio gwybodaeth am ganlyniadau unrhyw asesiad o gyflawniadau'r disgybl) i ysgol, coleg AB neu leoliad addysg neu hyfforddiant arall sy'n ystyried derbyn y disgybl, o fewn 15 diwrnod ysgol.

Am ganllawiau pellach ar y broses o drosglwyddo a chadw cofnodion disgyblion, gweler y ddolen isod:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cofnodion-addysgol-adroddiadau-ysgol-ar-system-drosglwyddo-gyffredin-cadw-gwaredu-datgelu-a-throsglwyddo-gwybodaeth-am-ddisgyblion.pdf>

Ymchwil ac ystadegau swyddogol

Ymchwil a gwerthuso

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwyr unigol er mwyn ymchwilio i ymyriadau polisi penodol a'u gwerthuso – er enghraifft, er mwyn deall effaith canlyniadau disgyblion ar raglenni datblygiadol ychwanegol ar draws y system addysg. Mae ein gallu i lywio polisiâu eraill, fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, hefyd yn ein galluogi i wneud ymchwil sylweddol ar draws pynciau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i feithrin dealltwriaeth a thryloywder ynghylch gwahaniaethau a thueddiadau perfformiad cenedlaethol ymhlith grwpiau o ddysgwyr, fel prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a nodweddion cydraddoldeb, er mwyn llywio cyfeiriad polisi.

Ystadegau swyddogol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ystadegau swyddogol ar lefel genedlaethol. Bydd data profion ac asesiadau athrawon ar gyfer awdurdodau lleol ac unedau daearyddol eraill, er enghraifft Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol, yn parhau i gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ddata canlyniadau ar lefel ysgolion yn cael eu cyhoeddi.

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, y Prif Ystadegydd sy'n bennaf cyfrifol am fformat, cynnwys ac amseriad ystadegau swyddogol. Er mwyn newid ffocws y ffordd y defnyddir data asesiadau athrawon i gefnogi dysgu, mae Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhoi'r gorau i gyhoeddi data mewn modd rhagweithiol ar gyfer awdurdodau lleol yn y [datganiad ystadegol blynyddol](#) ar berfformiad cenedlaethol a [thablau cysylltiedig StatsCymru](#).

Caiff data eu cyhoeddi'n rhagweithiol at ddibenion ystadegol ac unedau daearyddol eraill, e.e. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol ac etholaethau cynulliad, lle nad yw diben na ffocws y data, na'r defnydd a wneir ohonynt, yn gysylltiedig ag atebolrwydd ysgolion. Mae hyn yn cynnwys data i gefnogi'r broses o gynhyrchu Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr, bydd data ar lefelau daearyddol islaw Cymru gyfan yn parhau i gael eu darparu ar gais.

Casgliadau a datganiadau data allweddol ar gyfer 2019/20

Newidiadau'r Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion i gasgliadau a datganiadau data allweddol

Dyddiadau dros dro yw holl ddyddiadau cyhoeddi'r bwletinau ystadegol isod. Caiff yr union ddyddiadau cyhoeddi eu cadarnhau yn:

<https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil/i-ddod?>

| Eitem | Dyddiad | Math | Teitl y casgliad neu'r datganiad |
|-------|---------------------------|---|---|
| 1. | Gorffennaf | Datganiad | Bwletin ystadegol – Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion. |
| 2. | Gorffennaf | StatsCymru | Data'r Cyfrifiad Ysgolion. |
| 3. | Awst | Datganiad | Bwletin ystadegol – Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| 4. | Awst | Datganiad – Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Datganiad Rhagarweiniol Setiau Data Craidd Cymru Gyfan – Teuluoedd o ysgolion |
| 5. | Awst | Datganiad | Bwletin ystadegol – Aseidiadau Athrawon ar adeg derbyn, yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3. Data Cymru yn unig |
| 6. | Awst | StatsCymru | Canlyniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 – Data Cymru yn unig |
| 7. | Awst | Datganiad | Bwletin ystadegol – Aseidiadau Athrawon Allgraidd CA3. Data Cymru yn unig |
| 8. | Awst | StatsCymru | Canlyniadau allgraidd disgyblion CA2 a CA3 – Data Cymru yn unig |
| 9. | Awst | Datganiad | Bwletin ystadegol – Profion Cenedlaethol Cymru. Data Cymru yn unig |
| 10. | Awst | Datganiad | Bwletin ystadegol – Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. |
| 11. | Awst | Datganiad | Tablau meincnodi ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. |
| 12. | Awst | StatsCymru | Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. |
| 13. | Canlyniadau Safon Uwch | Datganiad | Briff i'r Gweinidog, adroddiadau ar ganlyniadau arholiadau ALI CBAC. |
| 14. | Canlyniadau TGAU | Datganiad | Briff i'r Gweinidog, adroddiadau ar ganlyniadau arholiadau ALI CBAC. |
| 15. | 6/09/2019 | Datganiad 1 – Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Pecynnau data Datganiad 1, yn cynnwys data cyd-destunol a data ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd (ac eithrio data disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim). |
| 16. | Medi | Datganiad | Bwletin ystadegol – Gwaharddiadau mewn ysgolion. |

| | | | |
|-----|---|---|---|
| 17. | 20/09/2019 | Casgliad – presenoldeb mewn ysgolion cynradd. | Cyflwyno casgliad ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ysgolion gyflwyno data i ALLau cyn hyn – bydd ALLau yn hysbysu eu hysgolion am y dyddiad cau. |
| 18. | Tymor yr Hydref | Cam gweithredu – Hunanwerthuso | Drwy gydol tymor yr hydref, dylid defnyddio'r data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at ddibenion hunanwerthuso'r ysgol. Bydd yr hunanwerthusiad hwn hefyd yn bwydo i mewn i'r broses o osod targedau, i'w cymeradwyo gan yr ALI erbyn diwedd mis Rhagfyr. |
| 19. | Hydref | Datganiad | Crynodeb Dros Dro o Berfformiad Ysgol Uwchradd – ar gael i ysgolion ac ALLau ar gyfer canlyniadau disgyblion CA4. |
| 20. | Hydref | Datganiad | Bwletin ystadegol – Canlyniadau TGAU a Safon Uwch dros dro. |
| 21. | Hydref | Datganiad 2a – Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Datganiad yn cynnwys canlyniadau'r Profion Cenedlaethol. |
| 22. | 25/10/2019 | Datganiad 2 – Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Setiau Data Craidd Ysgolion ac ALI Cymru Gyfan. Datganiad yn cynnwys data cyd-destunol a data perfformiad dros dro ar gyfer disgyblion CA4 a chweched dosbarth, gan gynnwys data disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |
| 23. | Hydref | Datganiad | Categorioidio – data cam 1 uwchradd dros dro ar gael i'r consortia. |
| 24. | Tachwedd | Datganiad – Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol – diweddaru â data cyd-destunol a data perfformiad terfynol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3, ac eithrio disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |
| 25. | Tachwedd | Datganiad | Bwletin ystadegol – Cyrhaeddiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |
| 26. | Tachwedd | Datganiad | 2 ^{il} Grynodeb Dros Dro o Berfformiad Ysgol Uwchradd – ar gael i ysgolion ac ALLau. |
| 27. | Rhagfyr | Datganiad | Crynodeb Terfynol o Berfformiad Ysgol Uwchradd – ar gael i ysgolion ac ALLau. |
| 28. | Yr wythnos sy'n dod i ben 20/12/2019 | Datganiad 3 – Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Setiau Data Craidd Ysgolion ac ALI Cymru Gyfan. Datganiad yn cynnwys data terfynol disgyblion CA4, Gwerth Ychwanegol a Chweched Dosbarth, data disgyblion y Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a data presenoldeb mewn ysgolion cynradd. |

| | | | |
|-----|--------------------|---------------------------------|--|
| 29. | Canol mis Rhagfyr | Datganiad | Categoreiddio – data cam 1 uwchradd terfynol ar gael i'r consortia. |
| 30. | Rhagfyr | Datganiad – Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol – diweddaru â data terfynol disgyblion CA4 a Chweched Dosbarth. |
| 31. | Rhagfyr | Datganiad | Dadansoddiadau Gwerth Ychwanegol terfynol ar gyfer ysgolion uwchradd – cyflwynir i ysgolion ac ALLau ar gyfer gwerth ychwanegol (CA2-CA4) a (CA3-CA4). |
| 32. | Rhagfyr | Datganiad | Bwletin ystadegol – Canlyniadau TGAU terfynol. |
| 33. | Rhagfyr | Datganiad | Meincnodi CA4 yn ôl dangosydd a phwnc. |
| 34. | Rhagfyr | StatsCymru | Data CA4 a Safon Uwch. |
| 35. | Rhagfyr | Datganiad | Bwletin ystadegol – Cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |
| 36. | Rhagfyr | Datganiad | Bwletin ystadegol – Presenoldeb mewn ysgolion cynradd. |
| 37. | Rhagfyr | Datganiad | Tablau meincnodi ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion cynradd. |
| 38. | Rhagfyr | StatsCymru | Presenoldeb mewn ysgolion cynradd. |
| 39. | Diwedd mis Rhagfyr | Cam gweithredu – gosod targedau | Mae'n ofynnol i bob ysgol osod targedau a'u cyflwyno i'w ALL i'w cymeradwyo erbyn diwedd mis Rhagfyr. Ers 2011, mae'n ofynnol i bob ysgol osod o leiaf dri tharged lleol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses hunanwerthuso, gan ystyried Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a gwybodaeth arall am berfformiad. Dylai'r targedau hyn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fel y maent yn berthnasol i'r ysgol unigol. |
| 40. | 14/01/2020 | Casgliad – CYBLD | Diwrnod cyfrifiad CYBLD. |
| 41. | Ionawr | Datganiad – Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol – diweddaru â data terfynol disgyblion CA4 a Chweched Dosbarth. |
| 42. | Ionawr | Datganiad | Bwletin ystadegol – Cyrhaeddiad yn ôl nodweddion disgyblion ym mhob cyfnod allweddol. |
| 43. | Diwedd mis Ionawr | Datganiad – Fy Ysgol Leol | Fy Ysgol Leol – diweddaru â data disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a data presenoldeb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3 a chategoreiddio cam 2 ar gyfer cynradd ac uwchradd. |
| 44. | Ionawr | Datganiad | Bwletin ystadegol – Cyflawniad yn ôl nodweddion disgyblion. |
| 45. | 06/03/2020 | Casgliad – CYBLD | Cyflwyno data CYBLD i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ysgolion gyflwyno data i ALLau cyn hyn – bydd ALLau yn hysbysu eu |

| | | | |
|-----|--|---|--|
| | | | hysgolion am y dyddiad cau. |
| 46. | Mawrth | Datganiad | Bwletin ystadegol – Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion. |
| 47. | 13/05/2020 | Casgliad – Casgliad Data Cenedlaethol | Dyddiad cofrestru disgyblion i'w cynnwys yn ffurflen data asesiadau athrawon y Casgliad Data Cenedlaethol ar gyfer asesiadau sylfaenol ac asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3. |
| 48. | 13/05/2020 | Casgliad – Profion Cenedlaethol Cymru. | Dyddiad cofrestru disgyblion i'w cynnwys yn ffurflen canlyniadau Profion Cenedlaethol Cymru ar gyfer blynyddoedd 2-9 oed y Cwricwlwm Cenedlaethol. Canlyniadau profion Rhifedd – ni chaiff data gweithdrefnol eu casglu (bellach ar-lein). |
| 49. | 05/06/2020 | Casgliad – Profion Cenedlaethol Cymru | Cyflwyno canlyniadau Profion Cenedlaethol Cymru, ac eithrio canlyniadau Rhifedd – gweithdrefnol neu flynyddoedd 2-9 oed y Cwricwlwm Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ysgolion gyflwyno data i ALLau cyn hyn – bydd ALLau yn hysbysu eu hysgolion am y dyddiad cau. |
| 50. | 12/06/2020 | Casgliad – Casgliad Data Cenedlaethol | Cyflwyno data asesu athrawon y Casgliad Data Cenedlaethol ar gyrraedd diwedd disgyblion mewn asesiadau sylfaenol ac asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ysgolion gyflwyno data i ALLau cyn hyn – bydd ALLau yn hysbysu eu hysgolion am y dyddiad cau. |
| 51. | Ar gael o ganol mis Mai/Mehefin ymlaen | Datganiad | Caiff Adroddiad Ysgol Cymharol (Rhif 1) sy'n benodol i bob ysgol ei lunio ar sail y data a gyflwynir i'r Casgliad Data Cenedlaethol. Mae pob adroddiad yn cynnwys data asesiadau athrawon ar gyfer y flwyddyn honno a data cymharol yr ALI ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Nid yw'n cynnwys data meincnodi. |
| 52. | 12/06/2020 | Casgliad – presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. | Cyflwyno data ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i ysgolion gyflwyno data i ALLau cyn hyn – bydd ALLau yn hysbysu eu hysgolion am y dyddiad cau. |